## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i Gomisiynydd Plant Cymru 2014/15

### Cyflwyniad

Yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15 wynebodd y Comisiynydd Plant a'i swyddfa rai o'r heriau mwyaf ers i'r rôl gael ei sefydlu. Bu'n flwyddyn bontio wrth i benodiad deilydd cyfredol y swydd, Keith Towler, ddod i ben, ac i'w olynydd, Sally Holland, baratoi ar gyfer ei chyfnod hithau yn y swydd. Yn ystod y flwyddyn hefyd adolygwyd rôl y Comisiynydd, a hynny ar ran Llywodraeth Cymru, gan yr ymgynghorydd Mike Shooter.

O ganlyniad, cyfeiriwyd cryn dipyn o amser ac ymdrech y swyddfa at fodloni gofynion y datblygiadau hyn yn ystod y flwyddyn, a bu'r Pwyllgor hefyd yn gwneud ei ran yn y gwaith o gynghori a rhoi mewnbwn ar ganlyniadau'r cerrig milltir pwysig hyn yn hanes swyddogaeth y Comisiynydd.

Yn ogystal ag asesu effaith y newidiadau hyn, mae'r Pwyllgor wedi ceisio parhau i ymdrin â'i agenda, sy'n cynnwys archwilio a risg, materion polisi, datblygiadau strategol a chynllun gwaith blynyddol y Comisiynydd.

### Diben yr Adroddiad Blynyddol

Mae'n ofynnol bod y Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei waith, fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl cytunedig.

Mae'n bleser, felly, gan Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd Plant gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2015.

### Aelodaeth

Yn ystod y flwyddyn, dyma oedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio:-

| Aelod | Cofnod presenoldeb |
|---|---|
| Wyn Mears – Cadeirydd | 5/5 |
| Ian Summers | 4/5 |
| Greta Thomas | 3/5 |
| Iolo Doull | 2/5 |
| Aine Denvir | 3/5 |

### Taliadau Cydnabyddiaeth

Ni dderbyniodd yr Aelodau unrhyw daliadau cydnabyddiaeth, yn unol â'r polisi a sefydlwyd gan y Pwyllgor, ond gallent hawlio ad-daliad am gostau teithio yr oeddent wedi gorfod eu talu.

### Amlder y Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio yn Abertawe a Chaerdydd ar bum achlysur yn ystod blwyddyn 2014-15:-

Ebrill

Mehefin

Gorffennaf

Hydref

Ionawr

Roedd y Comisiynydd Plant, Prif Weithredwr y Comisiynydd, a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol bob amser yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn rheolaidd.

**Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

Aeth y pwyllgor ati i adolygu ei effeithiolrwydd ei hun ym mis Ebrill a mis Mehefin 2014, gan ddefnyddio Llawlyfr Trysorfa EM ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg i roi arweiniad ar y prif eitemau yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

Daethpwyd i nifer o gasgliadau o ganlyniad i'r broses, gan gynnwys y canlynol:-

- dylid cynnwys Egwyddorion Nolan yng nghylch gorchwyl y pwyllgor;

- barnwyd bod yr aelodaeth bresennol, sef pum Aelod Annibynnol, yn briodol;

- bydd Datganiad Llywodraethu 2014-15 yn cynnwys adran ar bresenoldeb yr aelodau ar hyd y flwyddyn;

- dylid gwneud trefniadau digonol i sicrhau bod y Cadeirydd yn cwrdd yn rheolaidd â phob aelod o'r pwyllgor;

- roedd angen hyfforddiant i wella gwybodaeth a dealltwriaeth yr aelodau o'r Swydd a'r meysydd ehangach;

- wrth recriwtio aelodau yn y dyfodol, dylid defnyddio dulliau hysbysebu ar-lein a rhwydweithiau.

**Materion ar yr agenda**

Roedd yr eitemau arferol ar yr agenda yn cynnwys:-

- Adroddiadau archwilio mewnol
- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
- Materion archwilio allanol
- Newidiadau i'r gofrestr risg
- Llywodraethu a threfniadau rheoli mewnol

Yn eithriadol, yn ystod 2014-15, bu'r Pwyllgor yn neilltuo amser i werthuso'r risgiau posibl yr oedd swyddfa'r Comisiynydd yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pontio o un deilydd swydd i'r nesaf, a bu'r aelodau hefyd yn rhoi mewnbwn i'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Gweinidog Cymunedau a

Threchu Tlodi, Jeff Cuthbert AC. Roedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys gwaith deddfwriaethol, craffu, a threfniadau llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru, a bu aelodau o'r Pwyllgor yn cwrdd ag ymgynghorydd y prosiect ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod amser digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer derbyn ac ystyried adroddiad cynnydd rheolaidd gan y Prif Weithredwr, sy'n galluogi'r aelodau i ddeall yn llawn ddatblygiad busnes, cyflawniad y cynllun gwaith, a chael eu briffio ar faterion cyfredol. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn gallu datblygu ei ymwybyddiaeth o nifer o faterion sy'n bwysig i fywydau plant yng Nghymru heddiw, a rhai o'r materion sy'n cyfrannu at bwysau ychwanegol ar y Comisiynydd, gan gynnwys materion sy'n deillio o Ymgyrch Pallial, a'r cynnydd yn nifer y galwadau i'r swyddfa.

**Prif Waith y Pwyllgor**

**Archwilio Mewnol**

Roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn adroddiad Archwilio Mewnol cadarnhaol gan Baker Tilly. Y meysydd penodol a gafodd sylw yn adroddiad 2014-15 oedd:

• Trefniadau llywodraethu – roedd y gwaith a gwblhawyd yn dangos bod swyddfa'r Comisiynydd yn gwneud popeth sy'n ofynnol

• Rheoli Risg – roedd yr adolygiad o Aeddfedrwydd Risg yn canolbwyntio ar y gwaith a wnaed ar ddatblygiad risg o fewn y sefydliad. Mae swyddfa'r Comisiynydd yn perthyn i gategori sefydliad lle mae risg yn aeddfedu, a bernir ei bod yn delio â'r risg.

Ar ben hynny, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau manwl ar y canlynol:-

- Polisïau a Gweithdrefnau AD – roedd yn canolbwyntio ar pa bolisïau oedd yn eu lle, a oedd unrhyw fylchau, a pha broses sy'n cael ei mabwysiadu i adolygu'r polisïau. Roedd yr argymhellion a wnaed yn ymwneud â materion o ran amseru diweddariadau i bolisïau, oedd yn deillio o'r angen am adolygu pob polisi yn 2010.

- Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg – roedd yn canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a Mesur yr Iaith Gymraeg. Roedd y materion a nodwyd yn ymwneud yn bennaf â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, a nododd y Pwyllgor fod camau priodol wedi'u cymryd i ymdrin â'r pwyntiau hyn.

- Prif Fesurau Rheolaeth Ariannol – roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn adroddiad cadarnhaol iawn, heb angen gwneud ond mân addasiadau.

- Cynllunio Pontio a Dilyniant Busnes

**Cyfrifon Blynyddol ac Archwilio Allanol**

Adroddiad ISA 260:

Archwiliwyd cyfrifon y Comisiynydd gan Grant Thornton ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac fe'u cwblhawyd yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Cynigiwyd tystysgrif archwilio ddiamod ac adroddiad heb eitemau arni. Nid oedd materion pwysig i'w codi, ac roedd yr holl gywiriadau i'r cyfrifon wedi'u gwneud. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi na fu materion o sylwedd oedd yn destun pryder.

**Diweddglo**

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel ac ansawdd yr archwilio mewnol ac allanol yn 2014-15 yng nghyswllt trefniadau'r Comisiynydd ar gyfer rheolaeth ariannol, a phrosesau ehangach llywodraethu corfforaethol a chanfod a rheoli risg. Ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i gasgliadau ei hun, gall y Pwyllgor roi sicrwydd i'r Comisiynydd fod y trefniadau sydd ar waith yn briodol, a'u bod wedi gweithredu'n effeithiol.

**Diolchiadau**

Yn ystod blwyddyn o newid a her mae'r Pwyllgor yn cydnabod proffesiynoldeb ac ymrwymiad y Comisiynydd sy'n ymadael wrth drafod ystod eang o faterion busnes pontio, ochr yn ochr â chynnal ei ffocws ar anghenion plant yng Nghymru. Cafodd gefnogaeth lawn gan ei Brif Weithredwr a'r tîm o staff, ar adegau pan oedd rhwystrau annisgwyl i'w goresgyn a materion gwleidyddol sensitif yr oedd yn rhaid eu trafod. O ganlyniad, llwyddodd y swyddfa i ddod trwy gyfnod anodd mewn sefyllfa dda i fedru cefnogi'r Comisiynydd newydd wrth iddi gychwyn ar ei thymor yn y swydd.

Carai'r Pwyllgor hefyd ddiolch i dîm Baker Tilly am ei waith o ran trefniadau archwilio mewnol y Comisiynydd hyd at 31 Mawrth 2015.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Grant Thornton am eu gwaith yn cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflwyno cyfrifon blynyddol i Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n nodi bod newidiadau i'r trefniadau'n debygol o 2015-16.

Mae'r aelodau'n gwerthfawrogi cymorth parod y Comisiynydd, ei Brif Weithredwr, Eleri Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, Tony Evans, ac Ysgrifennydd y Pwyllgor, Monica Roberts am gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei waith yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

Wyn Mears

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Hydref 12fed 2015